**Adran Gwasanaethau Cymdogaethol**

# Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen

# Polisi Dewis a Rheoli Adnoddau

## 1. CEFNDIR

1.1 Darperir gwasanaethau llyfrgelloedd yn Nhorfaen yn unol â'r:

1.2 Gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n byw, gweithio neu'n cael eu haddysgu o fewn ei ffiniau waeth beth yw eu hoed, gallu, rhyw neu hil.

1.3 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'r ymarferiad asesu blynyddol.

1.4 Strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli Llywodraeth Cymru ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus (ac unrhyw strategaeth ddilynol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n ei disodli).

1.5 Datganiad cenhadaeth y gwasanaeth llyfrgelloedd yw: "Eich hysbysu, eich diddanu, eich ysbrydoli – Be informed, be entertained, be inspired."

## 2. AMCANION DEWIS A RHEOLI ADNODDAU

2.1 Caiff adnoddau priodol (llyfrau yn Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd lleiafrifol, cylchgronau, papurau newyddion, llyfrau sain, e-lyfrau ac adnoddau electronaidd) eu dewis, eu prynu a'u darparu mewn mannau gwasanaeth a thrwy weithgareddau allgymorth.

2.2 Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn ceisio gwella ansawdd bywyd pawb sy'n byw, gweithio neu astudio yn Nhorfaen waeth beth yw eu hoed, rhyw, anabledd neu darddiad ethnig.

2.3 Bydd y Gwasanaeth yn ceisio diwallu anghenion cwsmeriaid am:

- Wybodaeth
- Dysgu gydol oes
- Cyfoethogiad diwylliannol
- Mwynhad personol

## 3. DARPARU ADNODDAU

3.1 Bydd pob llyfrgell yn darparu adnoddau sy'n berthnasol i anghenion lleol ar lefel sy'n gweddu i'w maint, y galw sy'n hysbys a'r cyllid a neilltuwyd.

3.2 Bydd Llyfrgell Cwmbrân, sef y llyfrgell fwyaf, yn cadw dewis ehangach o adnoddau benthyca. Hi fydd y brif ganolfan ar gyfer ymholiadau ymchwil ac yno hefyd y cedwir y rhan fwyaf o'r deunydd hanes lleol.

3.3 Dylid ystyried eitemau a brynir ar gyfer mannau gwasanaeth unigol yn adnodd ar gyfer y Fwrdeistref gyfan sydd ar gael trwy'r system geisiadau.

3.4 Mae gan staff gyfrifoldeb i ddewis y fformat stoc mwyaf addas er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr llyfrgelloedd a chynnig y budd mwyaf iddynt.

3.5 Defnyddir yr un meini prawf ar gyfer rhoddion ag ar gyfer stoc a brynir. Mae Llyfrgelloedd Torfaen yn cadw'r hawl i benderfynu ar leoliad rhoddion a ddewisir ar gyfer stoc ac i gael gwared â'r eitemau hynny nad oes eu hangen.

3.6 Caiff ceisiadau am eitemau nad ydynt mewn stoc eu hasesu'n rhan o'r broses ddewis arferol.

3.7 Darperir eitemau y gofynnwyd amdanynt nad ydynt ar gael i'w prynu (allan o brint) neu nad ydynt yn cael eu hystyried yn ychwanegiad dilys i'r stoc trwy'r gwasanaethau benthyca rhyng-lyfrgellol a ddarperir gan gynlluniau Books 4 U neu Undod (Cymru).

## 4. <u>DEWIS A CHAFFAEL ADNODDAU</u>

### 4.1 Caffael

Mae Llyfrgelloedd Torfaen yn aelod o Gonsortiwm Prynu Llyfrau Cymru sy'n gwahodd tendrau ffurfiol ar gyfer prif gyflenwr bob 3 blynedd. Mae caffael ar y cyd yn denu cwmnïau all gynnig dewis rhagorol o stoc ar ostyngiadau cystadleuol iawn, gan wneud y defnydd gorau posib o'r gronfa lyfrau. Mae hyn yn bodloni'r angen ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy egwyddorion Gwerth Gorau.

4.1.1 Defnyddir cyflenwyr arbenigol ar gyfer caffael deunyddiau print bras, llyfrau sain, ac e-lyfrau.

4.1.2 Gellir prynu deunyddiau Cymraeg a theitlau o ddiddordeb lleol yn lleol a/neu'n uniongyrchol oddi wrth yr awduron/cyhoeddwyr. Os yw hynny'n briodol a chystadleuol, efallai hefyd y defnyddiwn gyflenwr cenedlaethol i brynu'r deunyddiau hyn.

### 4.2 Cyfrifoldeb am Ddewis

4.2.1 Staff proffesiynol sy'n gyfrifol am ddewis adnoddau, a hynny ar gyfer y Fwrdeistref gyfan. Bydd adborth gan staff rheng flaen yn cyfrannu at y broses ddewis i sicrhau y darperir ar gyfer anghenion cwsmeriaid.

### 4.3 Meini Prawf Dewis

4.3.1 Meini Prawf Cyffredinol

- Nodau fel y'u diffinnir yn adran 2.1
- Apêl i'r darllenydd
- Cynnwys
- Darllenadwyedd
- Fformat
- Cyfoesedd
- Ansawdd y cyflwyno a'r cynhyrchu
- Pris
- Cymhariaeth ag adnoddau presennol ar yr un testun

4.3.2 **Ffuglen**

Mae Llyfrgelloedd Torfaen yn cydnabod yr angen i gefnogi a hyrwyddo'r nofel yn ffurf lenyddol trwy brynu gweithiau gan awduron hen a newydd. Bydd y gweithiau hyn yn cynnwys enghreifftiau o nofelau yn yr iaith Gymraeg, ysgrifennu am Gymru yn y Saesneg, nofelau cyntaf, nofelau arbrofol a nofelau wedi'u cyfieithu.

4.3.3 Mae'n bwysig fod patrymau prynu yn adlewyrchu cydbwysedd priodol rhwng yr angen am ffuglen boblogaidd a gweithiau mwy llenyddol.

4.3.4 Rhagdybir y gall darllenwyr o oedolion wneud eu harfarniad eu hunain o safbwyntiau a chredoau a fynegir mewn llyfrau.

4.3.5 Efallai y defnyddir cyflenwyr arbenigol i brynu llyfrau mewn ieithoedd tramor ar gyfer lleiafrifoedd ethnig sy'n byw a gweithio yn Nhorfaen.

4.3.6 **Ffeithiol**

Cynnwys testunol, manwl-gywirdeb a chyflwyniad fydd y prif feini prawf ar gyfer dewis deunyddiau ffeithiol.

4.3.7 **Adnoddau Clyweledol**

Bydd llyfrau sain yn cael eu prynu i wasanaethu anghenion holl gwsmeriaid.

4.3.8 Byddwn yn darparu e-lyfrau, e-lyfrau sain ac e-gylchronau drwy drefniadau consortiwm priodol.

4.3.9 **Adnoddau Electronaidd**

Fwy a mwy, mae adnoddau yn dod ar gael mewn nifer o fformatau digidol gwahanol ac yn danysgrifiadau ar-lein. Caiff y rhain eu hasesu o ran eu haddasrwydd a'u darparu i gwsmeriaid wrth i gyllid ganiatáu.

4.3.10 **<u>Adnoddau i Blant</u>**

4.3.11 Yng Nghymru mae pob baban a phlentyn ifanc yn derbyn llyfr dwyieithog rhad ac am ddim yn rhan o fenter Dechrau Da. Yna mae disgwyl i lyfrgelloedd cyhoeddus adeiladu ar y sylfaen hon i sicrhau bod yr adnoddau iawn yn cyrraedd y plentyn iawn ar yr adeg iawn.

4.3.12 Dewisir adnoddau a fydd yn:

- Annog plant i ddarllen er mwyn pleser
- Datblygu'r defnydd a'r ddealltwriaeth o iaith
- Cyfrannu tuag at ddatblygiad deallusol, emosiynol, seicolegol a chymdeithasol y plentyn
- Annog arfer dysgu gydol oes
- Cynnig delweddau cadarnhaol o stereoteipiau negyddol
- Adlewyrchu cyfleoedd cyfartal
- Meithrin parch i gefndiroedd diwylliannol gwahanol
- Cefnogi addysg ffurfiol a pharhaus
- Bwydo'r dychymyg

4.3.13 Er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid ifanc, o fabanod i'r arddegau, caiff adnoddau eu dewis a'u prynu mewn nifer o fformatau gwahanol, gan gynnwys:

- Llyfrau clawr caled
- Llyfrau clawr papur
- Llyfrau bwrdd
- Llyfrau lluniau
- Llyfrau sain
- Print bras
- Cylchgronau a chomics
- Deunyddiau dwyieithog
- Adnoddau rhyngrwyd

4.3.14 Bydd casgliadau yn cynnig cyngor ar feichiogrwydd, sgiliau magu plant a materion perthnasoedd yn cael eu cadw ymhob llyfrgell er budd i rieni a gofalwyr.

**4.4 <u>Sensoriaeth</u>**

4.4.1 Ni fydd Llyfrgelloedd Torfaen yn prynu nac arddangos adnoddau sy'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth y DU ar anlladrwydd neu gabledd neu sy'n cymell casineb crefyddol neu wleidyddol. Mae hyn yn gydnaws â chanllawiau cenedlaethol ar reoli deunyddiau dadleuol.

4.4.2 Ni fydd cyhoeddiadau nad ydynt wedi wynebu unrhyw gosbau cyfreithiol yn cael eu heithrio yn unig oherwydd eu bod yn ddadleuol, ond cânt eu gwerthuso a'u barnu yn unol â'r meini prawf dewis.

## 5 CYNNAL A CHADW STOC

5.1 Yn ddelfrydol dylai adnoddau ar gyfer cwsmeriaid mewn oed a phlant gael eu diweddaru bob 8/9 mlynedd. Bydd y Gwasanaeth yn ceisio cyrraedd y safon hon ar yr amod fod cyfyngiadau cyllidebol yn caniatáu.

5.2 Caiff adnoddau eu golygu'n flynyddol a chaiff eitemau sydd wedi dyddio, eu difrodi neu nad ydynt yn cael eu benthyca eu tynnu allan o'r casgliadau. Dim ond staff gyda chymwysterau proffesiynol fydd â'r awdurdod i dynnu eitemau o stoc.

5.3 Dylai staff gyda chymwysterau proffesiynol adolygu stoc nad yw bellach yn cael ei fenthyg ac os tybir bod hynny'n briodol:

- Eu symud i fan gwasanaeth arall
- Eu rhoi yn Stac Cwmbrân os oes digon o le

5.4 Gwerthu neu eu hail-gylchu gan gwmnïau arbenigol sy'n cael gwared â llyfrau ar ran Llyfrgelloedd Torfaen.